Drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru

3 Mai 2019

Annwyl gydweithiwr

Arholiadau haf 2019

Wrth i dymor yr arholiadau nesáu, ysgrifennaf atoch ynglŷn â'r arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch sydd ar ddod. Yr haf hwn fydd y tro cyntaf i'r holl gymwysterau diwygiedig gael eu dyfarnu, ac mae sicrhau tegwch i'r dysgwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni.

Cofrestriadau

Byddwn yn cyhoeddi nifer dros dro y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yr haf hwn ar 24 Mai 2019. Bydd y data hyn yn dangos unrhyw newidiadau o ran patrymau cofrestru, a fydd yn ddefnyddiol wrth ddehongli canlyniadau'r haf.

Dyfarnu cymwysterau am y tro cyntaf

Bydd saith pwnc TGAU a phum pwnc Safon Uwch yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn[1]. Yn yr un modd â'r pynciau hynny a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn 2017 a 2018, bydd CBAC yn trosglwyddo'r safonau o'r hen gymwysterau. Yn gyffredinol, gan fod carfan 2019 yn debyg i garfan 2018, at ei gilydd, rydym yn disgwyl canlyniadau tebyg ar gyfer y graddau allweddol[2]. Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth am y garfan hon ar ôl i'r ystadegau am y cofrestriadau gael eu rhyddhau.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi

[1] TGAU: Busnes, Cyfrifiadureg, Dylunio a Thechnoleg, Hanes, Astudiaethau'r Cyfryngau, Astudiaethau Crefyddol, Cymraeg Ail Iaith / Safon Uwch: Dylunio a Thechnoleg, Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, y Gyfraith, Mathemateg Bellach, Astudiaethau'r Cyfryngau

[2] Graddau allweddol TGAU: A, C, ac F / Graddau allweddol Safon Uwch: A ac E.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Mae'r cynnwys am arholiadau ar ein gwefan wedi cael ei ddiweddaru. Mae adran newydd o'r enw Arholiadau 360 yn cynnwys gwybodaeth i randdeiliaid sy'n ymwneud â'r gyfres arholiadau. Bydd yn cynnwys crynodebau o'r broses arholiadau a'r ffordd y caiff papurau arholiadau eu gosod a'u marcio. Bydd hefyd yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer swyddogion arholiadau, sy'n hollbwysig er mwyn trefnu arholiadau'n llwyddiannus mewn ysgolion a cholegau, yn ogystal â chyngor i fyfyrwyr. Mae amrywiaeth o gardiau post defnyddiol ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan, sy'n ymdrin â phrif nodweddion y cymwysterau TGAU newydd a Bagloriaeth Cymru. Byddwn yn parhau i anfon diweddariadau rheolaidd at ysgolion a cholegau am gymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau eraill a reoleiddir gennym drwy ein cylchlythyr, '*Y Llechen*'. Gallwch gofrestru i gael y cylchlythyr hwn ar ein gwefan.

Dweud eich dweud!

Fel rhan o'n gwaith o fonitro cyfres arholiadau'r haf, rydym yn cynnal holiadur ar-lein er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr, athrawon a darlithwyr roi adborth ar arholiadau. Bydd yr holiadur yn agor ar 7 Mai, a bydd ar gael tan 5 Gorffennaf.

Rhyddhau canlyniadau

Hoffem atgoffa ysgolion a cholegau fod canlyniadau'n gyfrinachol tan y diwrnodau canlyniadau swyddogol (15 Awst ar gyfer TAG a 22 Awst ar gyfer TGAU) ac na ddylid eu rhannu ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall y tu allan i'ch ysgol neu'ch coleg.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i chi yn y dyfodol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Swyddog Gweithredol